Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro

## Lefel y gweithgarwch dilynol: Mesurau Arbennig

## Ysgol Gynradd Beaumaris

**Maeshyfryd**
**Biwmares**
**LL58 8HL**

**Dyddiad yr ymweliad: Gorffennaf 2024**

**gan**

**Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Gynradd Beaumaris wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol o'r rhestr ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1. Ymateb i'r pryderon iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â safle'r ysgol

Mae'r ysgol wedi ymateb yn llawn i'r pryderon iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad craidd.

### A2. Datblygu cyfrifoldebau arweinyddol aelodau'r staff a'r llywodraethwyr fel eu bod yn gweithredu'n fwy strategol

Ers yr arolygiad craidd, mae llywodraethwyr yn gweithredu'n fwy strategol ac yn cynorthwyo'r pennaeth yn effeithlon yn eu rôl fel ffrindiau beirniadol gan ddarparu cymorth a her addas, fel y bo'n briodol. Maent yn ymroddedig, yn wybodus ac yn adnabod yr ysgol yn dda. Mae eu mewnbwn yn dylanwadu'n bwrpasol ar ddatblygu gwelliannau bwriadus ar draws yr ysgol, ac maent yn barod i ddod â'u gwybodaeth a'u cryfderau unigol i'r rôl. Dros amser, mae llywodraethwyr wedi elwa ar gymorth gwerthfawr gan swyddogion yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol i ddatblygu eu medrau a'u dealltwriaeth ymhellach. Maent yn cynnal teithiau dysgu buddiol ar y cyd ag ymgynghorwyr cefnogi gwelliant i fonitro'r ddarpariaeth a safonau disgyblion ym meysydd llythrennedd, rhifedd a datblygiad digidol.

Erbyn hyn, mae cyfrifoldebau penodedig y llywodraethwyr wedi'u sefydlu'n gadarn. O ganlyniad, mae'r pennaeth yn manteisio'n llawn ar eu harbenigeddau i gefnogi agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol. Trwy ddilyn amserlen monitro bwrpasol, mae llywodraethwyr yn cynnal trafodaethau â staff yn rheolaidd ac yn ymweld â'r ysgol i werthuso'r ddarpariaeth a safonau, er enghraifft wrth graffu ar ddarpariaeth a chynnydd disgyblion yn eu medrau digidol ar draws yr ysgol. Mae'r ymweliadau'n arwain at greu adroddiadau defnyddiol sy'n canolbwyntio ar gynnydd disgyblion ac yn cael eu trafod yn bwrpasol gyda'r pennaeth ym Mhanel Cwricwlwm a Chynnydd y llywodraethwyr. Yn ogystal, mae adroddiadau'r pennaeth yn sicrhau bod llywodraethwyr yn cael gwybodaeth briodol am berfformiad yr ysgol. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen parhau i'w gwella.

Erbyn hyn, mae peth sefydlogrwydd o ran staffio wedi cyfrannu'n bwrpasol at wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae staff yn gliriach ynghylch eu cyfrifoldebau a'u llinellau atebolrwydd ac maent yn awyddus i arwain eu meysydd cyfrifoldeb. Mewn cyfnod byr, mae'r arweinydd rhifedd newydd wedi derbyn cefnogaeth fuddiol gan y pennaeth i ymgymryd â'i rôl strategol yn bwrpasol. Yn ddiweddar, cafodd gyfleoedd i gysgodi'r pennaeth a chydweithio'n agos ag ymgynghorydd cefnogi gwelliant o'r consortiwm rhanbarthol i arfarnu darpariaeth a safonau mathemateg a rhifedd ar draws yr ysgol. Bellach, mae medrau staff i gymryd rhan yn y broses monitro, gwerthuso a chynllunio'r camau nesaf i wella yn datblygu'n briodol.

**A3. Gwella gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn adnabod holl feysydd gwella'r ysgol er mwyn codi safonau a chryfhau'r ddarpariaeth**

Mae arweinwyr a staff yn cydweithio'n effeithiol â swyddogion yr awdurdod lleol, ac ymgynghorwyr cefnogi gwelliant y consortiwm rhanbarthol wrth ymateb i argymhellion yr adroddiad arolygiad craidd Estyn. Mae llywodraethwyr yn ymateb yn drwyadl i'w cyfrifoldebau mewn perthynas â gwahanol agweddau cwricwlaidd. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd gan gynnal amrediad pwrpasol o weithgareddau craffu, sy'n cynnwys teithiau dysgu a thrafod gwaith disgyblion ochr yn ochr â staff. Mae aelodau o'r Panel Cwricwlaidd a Chynnydd (sef is-banel o blith y llywodraethwyr) yn trafod eu hadroddiadau manwl yn ddeallus gyda'r pennaeth gan werthuso cynnydd yn erbyn camau gweithredu i fynd i'r afael a'r argymhellion yn briodol. Yn gyffredinol, mae hyn yn parhau i ddwysáu eu dealltwriaeth o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella.

Mae arweinwyr yn cynnal ystod bwrpasol o weithgareddau hunanwerthuso yn rheolaidd, sy'n cael effaith fuddiol ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r arweinwyr llythrennedd a rhifedd newydd yn dadansoddi cynnydd disgyblion mewn profion yn bwrpasol gan nodi meysydd i'w gwella a'r camau i'w gweithredu. Maent yn cyflwyno adroddiadau manwl i lywodraethwyr am weithgareddau hunanwerthuso'r tymor a'r prif ganfyddiadau, sydd â chamau gweithredu priodol ar gyfer gwella a threfniadau adolygu addas. Er hyn, mewn ychydig o achosion, nid yw arweinwyr bob amser yn blaenoriaethu camau gweithredu yn ddigon ystyriol er mwyn sicrhau gwelliannau sy'n gynaliadwy.

Drwy graffu ar waith disgyblion a chynnal teithiau dysgu yn rheolaidd, mae arweinwyr yn darparu adborth buddiol am ansawdd y ddarpariaeth a dysgu disgyblion i'w cydweithwyr. Mae hyn yn cynnwys adrodd ar unrhyw gynnydd yn erbyn argymhellion yr ymweliad neu weithgaredd craffu blaenorol. Yn ogystal, mae'r adroddiadau'n cynnig sylwadau priodol am ansawdd y ddarpariaeth ac yn adrodd ar ddysgu disgyblion. Er enghraifft, mae'r arweinydd a'r llywodraethwr cyswllt llythrennedd wedi adnabod bod y defnydd o fapiau stori wedi'i wreiddio'n gyson ar draws yr ysgol ac yn dechrau cael effaith briodol ar fedrau'r disgyblion ym mlynyddoedd hŷn yr ysgol wrth ysgrifennu at wahanol ddibenion.

Erbyn hyn, mae arweinwyr yn datblygu medrau arwain yr athrawon yn bwrpasol trwy gyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr. O ganlyniad, mae'r athrawon yn magu hyder ac yn ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau'n briodol. Maent yn rhagweithiol wrth yrru gwelliannau yn maes eu cyfrifoldeb ac yn manteisio ar gyfleoedd pwrpasol i fynychu hyfforddiant. Enghraifft dda o hyn yw'r gwaith yn y maes digidol sydd wedi arwain at fireinio'r ddarpariaeth i gynnwys profiadau dysgu digidol cyfoes ac ysgogol i ddisgyblion. Mae hyn yn ei dro yn sicrhau bod disgyblion yn caffael medrau codio yn gynyddol hyderus ac yn eu cymhwyso'n effeithiol ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.

**A4. Codi safonau Cymraeg disgyblion ar draws yr ysgol, yn enwedig eu medrau llafar**

Mae'r ysgol yn parhau i weithio'n effeithiol gyda swyddogion y consortiwm rhanbarthol a'r awdurdod lleol er mwyn datblygu llafaredd Cymraeg y disgyblion. Mae gweithgareddau ymarfer cyson yn annog hyder y disgyblion yn fuddiol. Yn ystod y gweithgareddau hyn, mae'r athrawon yn holi cwestiynau addas gan annog y disgyblion i feddwl a datblygu hyder wrth fynegi eu hunain yn y Gymraeg.

Mae gan y staff ddisgwyliadau uchel ac maent yn annog disgyblion i geisio dwyn yr eirfa a'r cystrawennau perthnasol i gof. Mae effaith y gwaith hwn i'w gweld yn arbennig yn y dosbarth dysgu sylfaen, ble mae hyder llawer o'r disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn datblygu'n gynyddol gadarn. Mae'r mwyafrif yn sgwrsio'n hamddenol gyda staff ac ymwelwyr, gan drafod eu gwaith yn gynyddol aeddfed. Mae dulliau addysgu sy'n galluogi disgyblion i ddysgu straeon ar gof, yn cyfoethogi eu geirfa ac yn dylanwadu ar eu hyder wrth siarad. Mae effaith y cynnydd hwn mewn hyder i'w gweld ar waith ysgrifenedig y disgyblion, hefyd. Maent yn fwy hyderus wrth fynegi eu hunain, gan greu darnau o ysgrifennu cynyddol estynedig sy'n cynnwys ansoddeiriau a chymariaethau syml. Mae'r mwyafrif, yn unol â'u hoedran a'u cam datblygiad, yn darllen yn briodol, gan dalu sylw addas i atalnodi a phwyllo wrth geisio darllen geiriau anghyfarwydd.

Yn nosbarth y disgyblion hŷn, mae cysondeb o ran disgwyliadau'r staff yn cael effaith gadarnhaol ar hyder llawer o ddisgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r staff yn fodelau iaith effeithiol, ac mae'r anogaeth gyson i'r disgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth yn dechrau cael effaith gadarnhaol. Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd buddiol i'r disgyblion fagu hyder trwy siarad, er enghraifft wrth greu cyflwyniadau am eu diddordebau a'u recordio ar offer digidol cyn eu rhannu â'u cymheiriaid. Mae hyn yn ehangu geirfa'r mwyafrif o ddisgyblion yn briodol. Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn datblygu medrau darllen ac ysgrifennu priodol yn Gymraeg. Er enghraifft, maent yn cywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau er mwyn creu tudalen blaen papur newydd effeithiol sy'n mynegi dicter trigolion Capel Celyn yn sgil boddi'r Cwm. Er hyn, ar adegau, mae tueddiad o hyd i lawer o ddisgyblion droi i'r Saesneg yn ystod gweithgareddau annibynnol.

### A5. Cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion datblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm

Mae'r athrawon yn parhau i roi sylw priodol i ddarparu cyfleoedd i ddatblygu medrau mathemateg a rhifedd y disgyblion. Yn y ddau ddosbarth, mae cyfleoedd iddynt ddatblygu ystod o fedrau mathemateg, a'u cymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau diddorol ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, wrth ddysgu am unedau safonol fel gramau, mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn dysgu defnyddio clorian ddigidol, gan amcangyfrif beth fydd maint pêl o glai sy'n pwyso 100 gram. Mae hyn yn arwain at drafodaeth fuddiol ynglŷn â geirfa' fel trymach' ac 'ysgafnach' wrth amcangyfrif pa wrthrychau y gallent eu darganfod sydd tua'r un pwysau. Mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn cyd-destun daearyddol wrth ddefnyddio cyfesurynnau er mwyn dod o hyd i nodweddion ar fap o ardal Biwmares.

Yn nosbarth y disgyblion hŷn, mae llawer mwy o gyfleoedd buddiol i'r disgyblion ddatblygu medrau mathemateg, a'u cymhwyso mewn cyd-destunau diddorol ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Er enghraifft, yn ystod gweithgaredd wyddonol ar effaith ffrithiant, mae'r disgyblion yn defnyddio mesurydd Newton er mwyn mesur y grym sydd ei angen i symud esgidiau gyda gwadnau gwahanol ar hyd y llawr. Maent yn cynnal y prawf deirgwaith, gan gofnodi'r canlyniadau ac yna dod o hyd i'r cyfartaledd fel ateb terfynol. Mae tasgau buddiol yn herio'r disgyblion i gymhwyso'u medrau'n briodol, er enghraifft wrth ystyried sut i fuddsoddi cyllideb o £8,000 wrth ailddatblygu parc chwarae lleol, gan ystyried costau gwahanol offer.

Mae athrawon wedi parhau i ganolbwyntio'n effeithiol ar ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol mewn gwahanol gyd-destunau. O ganlyniad, mae medrau llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae llawer o ddisgyblion y dosbarth dysgu sylfaen yn defnyddio offer digidol yn annibynnol i gofnodi eu gwaith, er enghraifft wrth osod dolen at waith llafar trwy ddefnyddio cod QR yn eu llyfrau. Mae'r disgyblion hŷn yn elwa o gyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau codio trwy ddefnyddio dyfeisiau rhaglennu bach i greu cod er mwyn cyfrifo nifer eu camau a hyd eu taith.

### A6. Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain, er mwyn datblygu'n ddysgwyr annibynnol

Ar ddechrau themâu, mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gyfrannu syniadau am yr hyn yr hoffent ei ddysgu, ac ar adegau yn defnyddio dulliau digidol er mwyn hwyluso'r gwaith. Er enghraifft, wrth ddysgu am yr ardal leol, mae disgyblion yn rhannu syniadau ar gyfer trawsnewid parc chwarae lleol. Mae'r athrawon yn cynnwys syniadau'r disgyblion wrth gynllunio trywydd y themâu. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu'n briodol â'u dysgu.

Yn y dosbarth dysgu sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn aeddfed i wahanol weithgareddau sy'n hyrwyddo eu hannibyniaeth yn llwyddiannus. Maent yn darllen cyfarwyddiadau tasgau, ac yn cydweithio er mwyn cyflawni eu gwaith. Er enghraifft, maent yn defnyddio gwahanol ddeunyddiau i greu fferm gan osod gwahanol niferoedd o anifeiliaid yn y caeau. Mae llawer yn canolbwyntio yn aeddfed am gyfnodau estynedig wrth ymateb i weithgareddau sydd wedi eu graddoli ar lefelau her gwahanol.

Mae'r disgyblion hŷn yn dethol gweithgareddau eu hunain o blith yr heriau 'gwych,' 'arbennig' a 'rhagorol,' gan egluro'n briodol pam mae'r weithgaredd yn addas ar eu cyfer nhw. Maent yn arddangos ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd ymateb i feini prawf llwyddiant, gan werthuso eu cynnydd eu hunain a chynnydd eu cymheiriaid. O ganlyniad, mae ganddynt afael briodol ar yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i ddatblygu eu gwaith ymhellach.

Mae rôl y cyngor ysgol yn datblygu'n addas. Erbyn hyn, mae aelodau'r cyngor, sy'n cynrychioli disgyblion o'r ddau ddosbarth, yn siarad yn frwdfrydig am eu gwaith. Cyflawnwyd amrywiol weithgareddau fel digwyddiad i ddathlu Santes Dwynwen, a chynnal ffair lyfrau ail-law er mwyn codi arian i sefydlu 'Den Darllen' yn ystod amser egwyl. Fel rhan o'r prosiect hwn, rhannwyd holiadur gyda disgyblion er mwyn holi eu barn ynglŷn â sefydlu rhywle tawel iddynt fynd i fwynhau darllen yn ystod amseroedd egwyl prysur. Mae'r disgyblion wedi ymgysylltu â rhieni er mwyn trefnu bod llawr newydd yn cael ei osod cyn sefydlu'r 'Den' ac arddangos y llyfrau.

Mae disgyblion hŷn wedi elwa o gyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan mewn gweithgareddau lle maent yn cydweithio fel tîm i ddatrys problemau ymarferol. Maent yn datblygu medrau arweiniol, gan drafod a chytuno ar y modd mwyaf effeithiol o gyflawni tasgau. Er enghraifft, buont yn defnyddio gwahanol offer i adeiladu pontydd y gallai'r holl grŵp fynd drostynt yn ddiogel. Mae hyn yn datblygu eu hyder yn effeithiol, wrth iddynt gynnig syniadau i hwyluso gwaith y grŵp.

Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.